CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 1172 (Cy.95)

PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr-Doc Penfro (A477) (Ffordd Osgoi Sageston-Redberth) 2000

Wedi'i Wneud	*28 Ebrill 2000*
Yn Dod i Rym	*17 Mai 2000*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980**(a)** a phob pwer galluogi arall**(b)**:-

1. Daw'r briffordd newydd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym.

2. Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

3. Mewn perthynas ag unrhyw ran o briffordd sy'n croesi llwybr y gefnffordd newydd, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cyfarwyddo:

a. lle mae'r briffordd yn briffordd y gellir ei chynnal ar draul y cyhoedd gan yr awdurdod priffyrdd lleol, y cynhelir y rhan o dan sylw gan yr awdurdod hwnnw; a

b. lle nad yw'r briffordd yn briffordd y gellir ei chynnal felly ac na ellir ei chynnal ychwaith o dan ddeddfiad penodol neu oherwydd deiliadaeth, cau neu ragnodi, na fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan unrhyw ddyletswydd i gynnal y rhan o dan sylw.

4. Bydd y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog bras ar y plan a adneuwyd yn peidio â

(a) 1980 p.66

(b) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, rhoddwyd y pwerau hyn bellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 1172 (W.95)

HIGHWAYS, WALES

The St Clears-Pembroke Dock Trunk Road (A477) (Sageston-Redberth Bypass) Order 2000

Made	*28th April 2000*
Coming into Force	*17th May 2000*

The National Assembly for Wales makes this Order in exercise of powers conferred by sections 10 and 12 of the Highways Act 1980**(a)** and of all other enabling powers**(b)**:-

1. The new highway which the National Assembly for Wales proposes to construct along the route described in Schedule 1 to this Order shall become a trunk road as from the date when this Order comes into force.

2. The centre line of the new trunk road is indicated by a heavy black line on the deposited plan.

3. The National Assembly for Wales directs as respects any part of a highway which crosses the route of any of the new trunk road that:

a. where the highway is a highway maintainable at the public expense by the local highway authority, the part in question shall be maintained by that authority; and

b. where the highway is not a highway so maintainable and is not maintainable under a special enactment or by reason of tenure, enclosure or prescription, the National Assembly for Wales shall be under no duty to maintain the part in question.

4. The lengths of trunk road described in Schedule 2 to this Order and shown by broad striped hatching on the deposited plan shall cease to be trunk road and shall

(a) 1980 p.66

(b) By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, these powers are now conferred upon the National Assembly for Wales in relation to Wales.

bod yn gefnffordd a chânt eu dosbarthu fel ffyrdd dobarthiadol o'r dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n hysbysu Cyngor Sir Penfro fod y gefnffordd newydd ar agor i draffig drwodd.

be classified as classified roads as from the date on which the National Assembly for Wales notifies the County Council of Pembrokeshire that the new trunk road is open for through traffic.

5. Yn y Gorchymyn hwn

5. In this Order

(1) Mae pob mesur o bellter wedi'i fesur ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(1) All measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

(2) ystyr "**ffordd ddosbarthiadol**" ("*classified road*") fel dosbarthiad o briffordd yw nad yw'r briffordd yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd yn brif ffyrdd, ond mae'n ffordd ddosbarthiadol at ddibenion pob deddfiad ac offeryn sy'n cyfeirio at briffyrdd sydd wedi'u dosbarthu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru nad ydynt yn cyfeirio'n benodol at eu dosbarthu yn brif ffyrdd;

(2) "**classified road**" ("*ffordd ddosbarthiadol*") as a classification for a highway means that the highway is not a principal road for the purposes of enactments or instruments which refer to highways classified as a principal roads but is a classified road for the purpose of every enactment and instrument which refers to highways classified by the National Assembly for Wales and which do not specifically refer to their classification as principal roads;

ystyr "**y gefnffordd**" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Sanclêr-Doc Penfro (A477);

"**the trunk road**" *("y gefnffordd")* means the St Clears - Pembroke Dock Trunk Road (A477);

ystyr "**y gefnffordd newydd**" ("*the new trunk road*") yw'r briffordd a grybwyllir yn Erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn;

"**the new trunk road**" *("y gefnffordd newydd")* means the highway mentioned in article 1 of this Order;

ystyr "**y plan a adneuwyd**" ("*the deposited plan*") yw'r plan a rifwyd HA10/2 NAFW 1 wedi'i farcio Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr-Doc Penfro (A477) (Ffordd Osgoi Sageston-Redberth) 2000 a lofnodwyd drwy awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i adneuo yn Ystorfa Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Curran Embankment, Caerdydd.

"**the deposited plan**" ("*y plan a adneuwyd*") means the plan numbered HA10/2 NAFW 1 marked the St Clears-Pembroke Dock Trunk Road (A477) (Sageston-Redberth ByPass) Order 2000 signed by authority of the National Assembly for Wales and deposited at the National Assembly for Wales Repository, Curran Embankment, Cardiff.

6. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mai 2000 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr - Doc Penfro (A477) (Ffordd Osgoi Sageston - Redberth) 2000.

6. This Order shall come into force on 17th May 2000 and may be cited as the St Clears - Pembroke Dock Trunk Road (A477) (Sageston - Redberth ByPass)Order 2000.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cynulliad dros yr Amgylchedd

Signed on behalf of the Assembly Secretary for Environment

Dyddiedig y 28 Ebrill 2000

Dated the 28th April 2000

D.M. Timlin

Pennaeth yr Is-Adran Gweinyddu Ffyrdd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Head of Roads Administration Division
National Assembly for Wales

ATODLEN 1

Llwybr y Gefnffordd Newydd

Llwybr y gefnffordd newydd yw llwybr ym Milton, Sageston a Redberth yn Sir Benfro rhyw 4.80 cilometr o hyd yn dechrau o bwynt ar y Gefnffordd bresennol rhyw 260 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r A4075 ac yna'n mynd tua'r gogledd-ddwyrain hyd at bwynt ar y Gefnffordd bresennol rhyw 110 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r C3129.

SCHEDULE 1

Route of the New Trunk Road

The route of the new trunk road is a route at Milton, Sageston and Redberth in the County of Pembrokeshire about 4.80 kilometres in length starting at a point on the existing Trunk Road about 260 metres west of its junction with the A4075 then going in a northeasterly direction to a point on the existing Trunk Road about 110 metres southwest of its junction with the C3129.

ATODLEN 2

Darnau o Gefnffordd sy'n peidio â bod yn Gefnffyrdd

Dyma'r darnau o'r gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffyrdd:

1. Y darn hwnnw o'r gefnffordd a leolir rhwng pwynt rhyw 10 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r A4075 a farciwyd ag A ar y plan a adneuwyd a phwynt rhyw 210 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â'r A4075 a farciwyd â B ar y plan a adneuwyd.

2. Y darn hwnnw o'r gefnffordd a leolir rhwng pwynt rhyw 475 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â'r A4075 a farciwyd ag C ar y plan a adneuwyd a phwynt rhyw 275 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r C3129 a farciwyd â D ar y plan a adneuwyd.

SCHEDULE 2

Lengths of Trunk Road ceasing to be Trunk Roads

The lengths of trunk road ceasing to be trunk roads are as follows:

1. That length of the trunk road situated between a point about 10 metres west of its junction with the A4075 marked A on the deposited plan and a point about 210 metres east of its junction with the A4075 marked B on the deposited plan.

2. That length of the trunk road situated between a point about 475 metres east of its junction with the A4075 marked C on the deposited plan and a point about 275 metres west of its junction with the C3129 marked D on the deposited plan.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2000 Rhif 1172 (Cy.95)

PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd Sanclêr-Doc Penfro (A477) (Ffordd Osgoi Sageston-Redberth) 2000

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2000 No. 1172 (W.95)

HIGHWAYS, WALES

The St Clears-Pembroke Dock Trunk Road (A477) (Sageston-Redberth Bypass) Order 2000

©℗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090065-0

9 780110 900650

£1.50

WO6110 06/00 ON